OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1238 (Cy.151)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU
DŴR, CYMRU

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*5 Mai 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Mai 2012*
Yn dod i rym- - -	*1 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag y llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Gan arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan yr adran honno, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008 (**3**).

Amnewid rheoliad 2

2. Yn lle rheoliad 2 (cymhwyso) o'r prif Reoliadau, rhodder—

"**Cymhwyso**

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) Mae Rhannau 3 i 8 yn gymwys yn unig i ddaliad mewn parth perygl nitradau a ddynodir felly gan y Rheoliadau hyn.

(**1**) *Gweler*O.S. 2001/2555 am y dynodiad a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 28(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw wedi ei freinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi, a chan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(**3**) O.S. 2008/3143 (Cy.278), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/489 (Cy.55).

(3) Yn achos daliad sy'n rhannol o fewn parth perygl nitradau a ddynodir felly gan y Rheoliadau hyn, mae Rhannau 3 i 8 yn gymwys yn unig i'r rhan o'r daliad sydd o fewn y parth, ac mae cyfeiriad at ddaliad o fewn Rhannau 3 i 8 yn gyfeiriad at y rhan honno.".

Amnewid rheoliadau 7 i 10

3. Yn lle rheoliadau 7 (dynodi parthau perygl nitradau), 8 (cais am ddatganiad), 9 (achosion cyfreithiol gerbron y person penodedig) a 10 (effaith y canfyddiadau a wneir gan y person penodedig) yn y prif Reoliadau, rhodder—

"**Dynodi parthau perygl nitradau**

7.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "daliad perthnasol" ("*relevant holding*") yw tir ynghyd â'i adeiladau cysylltiedig sydd ar gael i'r meddiannydd ac sy'n cael eu defnyddio i dyfu cnydau mewn pridd neu fagu da byw at ddibenion amaethyddol, ac sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal—

(a) y mae'r Asiantaeth yn ei argymell; a

(b) bod Gweinidogion Cymru â'u bryd ar dderbyn (gyda diwygiadau neu hebddynt) a ddylai gael ei ddynodi yn barth perygl nitradau, neu a ddylai barhau i gael ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn;

ystyr "y person penodedig" ("*the appointed person*") yw'r person a benodwyd gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r ardaloedd a nodir ar y map o'r enw "Parthau Perygl Nitradau Map Mynegai 2008" ("*Nitrate Vulnerable Zones Index Map 2008*") ac a adneuwyd yn swyddfeydd Gweinidogion Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ yn cael eu dynodi yn barthau perygl nitradau at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(3) Parthau perygl nitradau yw darnau o dir sy'n draenio i ddyfroedd llygredig ac sy'n cyfrannu at lygru'r dyfroedd hynny.

(4) I gynorthwyo Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'u ddyletswyddau o dan reoliad 11(3), rhaid i'r Asiantaeth, ar 1 Mehefin 2012, ac ar yr hwyraf, bob pedair blynedd sy'n dilyn, wneud argymhellion i Weinidogion Cymru, drwy gyfeirio at y materion a grybwyllir yn rheoliad 11(3)(a) i (c), ynghylch pa ardaloedd y dylid eu dynodi'n barthau perygl nitradau neu a ddylai barhau i gael eu dynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Mae unrhyw argymhellion ynghylch y materion a gaiff eu datgan yn rheoliad 7(4) ac a gafodd eu gwneud gan yr Asiantaeth cyn 1 Mehefin 2012 yn cael effaith fel petaent wedi eu gwneud ar y dyddiad hwnnw.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r argymhellion hynny a wnaed gan yr Asiantaeth y maent â'u bryd ar eu derbyn (gyda diwygiadau neu hebddynt) ac anfon hysbysiad o'r argymhellion i unrhyw berchennog neu feddiannydd daliad perthnasol.

(7) Rhaid i hysbysiad gynnwys cyfeiriad at dudalen ar wefan a gynhelir gan yr Asiantaeth neu Weinidogion Cymru, lle y mae modd dod o hyd i'r argymhelliad perthnasol (gydag unrhyw ddiwygiad y mae Gweinidogion Cymru â'u bryd ar ei wneud iddo).

Apelau

8.—(1) Caiff perchennog neu feddiannydd daliad perthnasol yr anfonwyd hysbysiad iddo o dan reoliad 7(6) apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad hwnnw.

(2) Dim ond ar un neu ragor o'r seiliau a nodir ym mharagraff (3) y ceir apelio.